

Ein Byd

Darllen: Salm 8:3–4

Dathlu gwaith Duw, Creawdwr y Greadigaeth a wna Salm 8. A gellid tybio y defnyddid y Salm yn ystod Gŵyl y Pebyll yn yr hydref i ddathlu tro'r flwyddyn. Roedd hwn yn gyfle i ailadrodd hanes y Creu, ac yn gyfle hefyd i ddathlu adnewyddiad byd natur. Dywed rhai bod y Salm yn cael ei chanu yng ngolau lleuad, fel yr awgryma adnod 3. Yng nghorff y Salm, sylwir ar ddau begwn. Ar y naill law, ehangder gwaith Duw yn trefnu ac yn cynnal y greadigaeth; ac ar y llaw arall, ei ddiddordeb yn y natur ddynol a'i ofal drosti. Dyma'r Duw sydd wedi creu'r cyfan, ac yng nghanol yr anferthedd hwn nid rhyfedd bod y Salmydd yn gofyn 'beth yw dyn?' Yn adnod 4, defnyddir dau air Hebraeg am ddyn i bwysleisio mai meidrol a daearol ydyw. Nod y Salmydd yw dangos y gwahaniaeth rhwng godidowgrwydd y greadigaeth a'r ddynoliaeth. Ond mae'n mynd ymlaen i ddangos bod Creawdwr y greadigaeth yn cofio a gofalu am ddyn. A mwy na hynny, mae'n rhoi awdurdod iddo i ofalu am y greadigaeth. Mae'r Creawdwr yn gofyn i greadur o ddyn ofalu am y 'defaid a'r ychen i gyd, yr anifeiliaid gwylltion hefyd, adar y nefoedd, a physgod y môr' (8:7–8). Rhoddodd Duw'r awdurdod hwn i ddyn.

Neithiwr, wrth edrych ar awyr y nos a syllu ar y sêr a'r planedau, dyma ddechrau meddwl, 'Ys gwn i faint sydd yna ohonyn nhw?' Cyn mynd i'r gwely bob nos, byddai un o arlywyddion America a'i wraig yn ddi-feth yn mynd i ddrws y Tŷ Gwyn ac yn edrych i fyny i'r awyr; ac wedi ysbaid o sylwi byddai'n dweud wrth ei wraig, 'Gawn ni fynd i noswyllo rŵan, rydyn ni wedi gweld pa mor ddiddim ydyn ni'. A dyna a wna ehangder awyr y nos i ni. Tybed, pa mor bell ydi'r sêr oddi wrth ein planed ni? Y seren agosaf atom ydi'r haul, sydd yn ôl gwyddonwyr 93 o filiynau o filltiroedd i ffwrdd; ac eto mae gwres a goleuni'r seren hon yn cynnal bywyd ar y ddaear. Heb yr haul, fuasai dim bywyd o gwbl ar y ddaear. Ac o gymharu ein planed ni â phlanedau eraill, fe welwn ei bod yn gwbl wahanol. Pan laniodd y gofodwyr ar wyneb y lleuad, cafwyd llun y ddaear

o'r lleuad. Mae'n ddarlun rhyfeddol. Y peth cyntaf sy'n ein taro yw lliwiau glas y cefnforoedd, a'r tir a'r cymylau. Nwyon a llawer o'r rheiny'n wenwynig sy'n amgylchynu'r planedau eraill, a dim sôn, hyd y gwyddom, am unrhyw fath o fywyd. Ar y ddaear, mae bywyd yn cyniwair ym mhob man, o ddyfnderoedd yr eigion i oerni'r pegynau a chrastiroedd yr anialwch. Ai damwain ydi'r cyfan? Beth am ddyd yng nghanol yr aruthredd hwn? Edrychwch ar y cydweithio rhwng y gwahanol rannau o'i gorff - curiad y galon, cylchrediad y gwaed, yr esgyrn sy'n dal y cyfan wrth ei gilydd, y croen sy'n amgylchynu'r cyfan, a'r gydberthynas rhwng y rhain i gyd. Fe ddangosir y gydberthynas hon yn y ffordd y mae'r corff i gyd yn dioddef pan fo un rhan o'r corff yn dioddef. Oes yna drefn a phwrpas i'r cyfan? Cyhoeddi a wna'r Beibl bod Duw y tu ôl i'r cyfan. Meddai Llyfr Genesis, 'Yn y dechreuad creodd Duw y nefoedd a'r ddaear' (Genesis 1:1). Does dim 'os' nac 'ond' yng ngeirfa awdur llyfr cyntaf y Beibl; ac mae'r moliant yn parhau yn Salm 8 gan fynnu nad yw dyn yn ail i neb ond i'r dwyfol – 'ychydig islaw duw' (Salm 8:5). Dyma ei safle o fewn y bydysawd.

Myfyrdod pellach:

Pa mor anodd yw 'gweld' Duw yn ehangder y bydysawd?

Mae dyn o'r 'ddaear', ac eto mae ar lun a delw Duw. Beth yw ystyr hyn?